

Llais,
33-35 Heol y Gadeirlan,
Caerdydd,
CF11 9HB

Llais,
33-35 Cathedral Road,
Cardiff,
CF11 9HB



16 Mehefin 2023

Yr Athro Chris Jones
Dirprwy Brif Swyddog Meddygol Cymru

Anfonwyd drwy e-bost yn unig i: Chris.Jones@gov.wales

Annwyl Chris

COD YMARFER AR FYNEDIAD I FANGREOEDD AC YMGYSYLLTU AG UNIGOLION

Ysgrifennaf mewn ymateb i'ch llythyr dyddiedig 19 Mai 2023, lle rydych yn dechrau'r broses ymgynghori â Llais yn ffurfiol ar y Cod Ymarfer drafft diwygiedig ar Fynediad i Fangreoedd ac Ymgysylltu ag Unigolion ("y Cod").

Yn gyntaf, hoffem ddiolch i chi a'ch cydweithwyr am y trafodaethau defnyddiol a gawsom drwy gydol y broses o ddatblygu'r Cod. Rydym hefyd yn croesawu'n fras y diwygiadau a wnaed i'r Cod yn dilyn y broses ymgynghori gyhoeddus ffurfiol. Mae'n amlwg bod y cyhoedd a rhanddeiliaid ehangach yng Nghymru wedi cymryd diddordeb brwd mewn sicrhau bod y Cod yn rhoi pobl wrth wraidd ein holl gamau gweithredu.

Yn gyffredinol, credwn y bydd y Cod diwygiedig yn ddefnyddiol wrth gefnogi Llais i glywed gan bobl am eu hiechyd a'u gwasanaethau cymdeithasol. Mae gennym rai sylwadau ar rai meysydd o'r Cod. Nodir y rhain isod.

Cadeirydd / Chair: **Athro / Professor Medwin Hughes DL**
Prif Weithredwr / Chief Executive: **Alyson Thomas**
E-bost / E-mail: **enquiries@llaiscymru.org**
Ffôn / Tel: **02920 235558**

Llais is the operating name for the Citizen Voice Body for Health and Social Care, Wales.

Para 18 “a'r angen i barchu preifatrwydd/hawliau unigolion a darparwyr gwasanaethau”.

Hoffem gael rhagor o wybodaeth am hawliau darparwyr gwasanaethau a fyddai'n berthnasol i'r gweithgareddau a gwmpesir o fewn fframwaith y Cod.

Para 23 “Mae rhai mathau o leoliadau yn fwy sensitif nag eraill a byddai angen dull gwahanol o ymdrin â cheisiadau am fynediad. Byddai'r rhain yn lleoliadau fel y rhai y mae pobl yn byw ynddynt”. **Troednodyn 20** “er enghraifft cartrefi gofal, wardiau ieched meddwl tymor hir, wardiau cleifion mewnol, ac ati”

Rydym yn pryderu ynghylch nodi 'wardiau cleifion mewnol' yn eang o fewn y disgrifiad hwn, ac nid ydym yn credu y dylid ei gynnwys. Byddai gwneud hynny yn cynnwys bron unrhyw leoliad ysbyty lle gall cleifion aros dros nos. Credwn fod hyn yn gosod gofyniad anghymesur ar Llais. Mae'n gosod safon uwch ar gyfer mynediad na safon grwpiau eraill o bobl a all fynd i wardiau cleifion mewnol i gynnig gwasanaethau i gleifion, er enghraifft gwirfoddolwyr sy'n cynnig nwyddau bach, gofal gwallt, ac ati.

Rydym yn ymwybodol bod yr hen Gyngorau Iechyd Cymuned wedi ymweld â wardiau cleifion mewnol ysbytai am flynyddoedd lawer ar sail 'ar y dydd' heb roi rhybudd ymlaen llaw am ymweliad, a heb i gleifion, teuluoedd na darparwyr gwasanaethau godi pryderon am y dull hwn.

Er bod trefniadau gwahanol ar waith ar gyfer ymweld yn ystod pandemig Covid-19, y tu allan i'r cyfnod hwn mae llawer o ddarparwyr gwasanaethau fel mater o drefn yn darparu mynediad hawdd 'heb hysbys' i wardiau cleifion mewnol ar gyfer grŵp eang o bobl, gan gynnwys teulu a ffrindiau.

Credwn fod y darpariaethau ehangach o fewn y cod yn disgrifio'n ddigonol yr amgylchiadau lle gellir gwrthod cais am fynediad i leoliad claf mewnol yn rhesymol. Credwn fod hyn yn rhoi digon o sicrwydd na fyddai ymweliad undydd Llais mewn amgylchiadau a fyddai'n amhriodol yn digwydd.

Para 23 “Mae rhai mathau o leoliadau yn fwy sensitif nag eraill a byddai angen dull gwahanol o ymdrin â cheisiadau am fynediad. Byddai'r rhain yn lleoliadau fel y rhai y mae pobl yn byw ynddynt, neu y rheolir mynediad iddynt,” **Troednodyn 21** “er enghraifft canolfannau cyswllt clinigol 999 a chyfleusterau Tîm Ymateb Ardaloedd Peryglus (HART)”

Cadeirydd / Chair: **Athro / Professor Medwin Hughes DL**
Prif Weithredwr / Chief Executive: **Alyson Thomas**
E-bost / E-mail: **enquiries@llaiscymru.org**
Ffôn / Tel: **02920 235558**

Nid ydym yn credu bod angen y troednodyn hwn. Mae hyn oherwydd ei fod yn nodi lleoliadau lle na fyddai defnyddwyr gwasanaeth yn bresennol, ac felly ni fyddai Llais yn gofyn am fynediad at ddibenion clywed gan bobl wyneb yn wyneb.

Para 25 “Mae'n arfer da i gynlluniau amlinellol o ymweliadau gael eu rhannu yn rheolaidd (bob chwarter) â byrddau iechyd lleol, awdurdodau lleol, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ac Arolygiaeth Gofal Cymru i lywio eu gwaith cynllunio a hwyluso'r broses o rannu gwybodaeth (er enghraifft gweithgarwch monitro contractau y bwriedir ei wneud gan gyrff y GIG neu awdurdodau lleol a fyddai'n golygu ymweld ag adeiladau). Yn yr un modd, byddai'n arfer da i'r CLID gael gwybod, lle mae cynlluniau ymweld yn hysbys, am unrhyw newid neu amhariad mewn lleoliadau a fyddai'n effeithio ar y cynlluniau hynny.”

Gwyddom nad bwriad y Cod yw gosod cyfrifoldebau penodol ar gyrff nad ydynt yn ymwneud â chomisiynu neu ddarparu gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Fodd bynnag, o dan yr amgylchiadau a ddisgrifir yn y paragraff hwn, credwn y byddai'n ddefnyddiol nodi y byddai'n arfer da i Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ac Arolygiaeth Gofal Cymru rannu eu cynlluniau amlinellol o ymweliadau yn gyfrinachol â Llais i'r un diben, h.y., i lywio ein gwaith cynllunio a hwyluso rhannu gwybodaeth.

Para 27 “Dylid gwneud hyn mewn modd gwybodus am drawma, gyda hawliau'r unigolion fel yr ystyriaeth ganolog”

Rydym yn croesawu'r dull hwn. Byddem yn gwerthfawrogi rhywfaint o gymorth a chefnogaeth wrth ddatblygu dull sy'n seiliedig ar drawma trwy ein rhaglenni dysgu ar gyfer staff a gwirfoddolwyr Llais.

Para 32 “Fel y nodwyd ym mara. 19 uchod, dylai cyrff sy'n derbyn cais am fynediad ystyried dymuniadau, buddiannau a lles defnyddwyr neu breswylwyr y gwasanaeth neu'r safle wrth ystyried y cais. Hawliau dynol yr unigolyn/unigolion dan sylw (er enghraifft, eu hawliau Erthygl 8 i barch at fywyd preifat a theuluol), p'un a yw eu caniatâd wedi'i ddarparu”

Para 34 “Ni fyddai cwestiynau preifatrwydd, er enghraifft, yn rheswm dros wrthod ymweliad pe bai pawb dan sylw wedi rhoi eu caniatâd”.

Yn debyg i leoliadau cleifion mewnol, credwn fod y paragraffau hyn yn creu safon mynediad uwch na grwpiau eraill o bobl a all fynd i mewn i eiddo i

Cadeirydd / Chair: **Athro / Professor Medwin Hughes DL**
Prif Weithredwr / Chief Executive: **Alyson Thomas**
E-bost / E-mail: **enquiries@llaiscymru.org**
Ffôn / Tel: **02920 235558**

gynnig gwasanaethau i breswylwyr, er enghraifft gofal gwallt ac ewinedd, ac ati.

Credwn y gallai'r ffordd y mae'r paragraffau hyn wedi'u geirio arwain at ddarparwyr gwasanaeth yn gofyn i ddefnyddwyr gwasanaeth unigol gydsynio i rannu eu barn a'u profiadau cyn caniatáu mynediad i gynrychiolwyr Llais i eiddo. Nid ydym yn meddwl y byddai hyn yn ddefnyddiol. Credwn y gallai hyn arwain at wrthod mynediad amhriodol i gynrychiolwyr Llais.

Credwn y gallai hyn atal defnyddwyr gwasanaeth rhag cael cyfle rhesymol i roi caniatâd gwybodus i rannu eu barn a'u profiadau gyda Llais, ar ôl clywed yn uniongyrchol gan gynrychiolwyr Llais ynghylch pwy ydym ni, beth rydym yn ei wneud (gan gynnwys ein gwasanaeth eiriolaeth cwynion), a sut rydym yn gweithredu ar y safbwyntiau a'r profiadau a rannwyd gyda ni.

Para 53 “Yn ogystal, mae gan Gorff Llais y Dinesydd y cyfleuster i godi gwrthodiadau mynediad dro ar ôl tro gyda'r arolygiaethau perthnasol a dylai wneud hynny”.

Credwn y gellid ymestyn yr adran hon yn ddefnyddiol i awgrymu, fel arfer da, y dylai'r arolygiaethau perthnasol, yn eu tro, rannu gyda Llais y camau a gymerwyd mewn ymateb i'r atgyfeiriad.

Tudalen 17 “Beth yw statws neu natur y safle y mae'r CLID yn dymuno cael mynediad iddo?... e.e., mae'r gwasanaethau'n darparu ar gyfer cleientiaid preifat yn unig ac nid oes darpariaeth o wasanaethau ar ran y GIG nac awdurdodau lleol. **Nid yw'r Cod yn berthnasol**”.

Credwn y gallai fod yn ddefnyddiol cydnabod y posibilrwydd y gallai cynrychiolwyr Llais ddymuno cael mynediad o dan yr amgylchiadau hyn at ddibenion darparu gwasanaeth eiriolaeth cwynion i gleient preifat sy'n derbyn gwasanaeth rheoledig. O dan yr amgylchiadau hyn, byddai'n ddefnyddiol cydnabod y dylai cynrychiolydd Llais gael ei drin fel ei westai, h.y., ymwelydd.

Yn olaf, credwn y byddai'n ddefnyddiol nodi y dylai'r Cod fod yn destun adolygiad ar ôl bod yn ei le am flwyddyn.

Gobeithiwn y bydd y sylwadau hyn yn ddefnyddiol ac edrychwn ymlaen at glywed gennych.

Cadeirydd / Chair: **Athro / Professor Medwin Hughes DL**
Prif Weithredwr / Chief Executive: **Alyson Thomas**
E-bost / E-mail: **enquiries@llaiscymru.org**
Ffôn / Tel: **02920 235558**

Yr eiddoch yn gywir

J A Thomas

Alyson Thomas
Prif Weithredwr

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg. Os byddwch yn ysgrifennu atom yn Gymraeg, byddwn yn ateb yn Gymraeg. Ni fydd hyn yn arwain at oedi wrth ymateb i'ch gohebiaeth.

We welcome correspondence in Welsh and English. If you write to us in Welsh, we will answer in Welsh. This will not lead to a delay in responding to your correspondence.

Cadeirydd / Chair: **Athro / Professor Medwin Hughes DL**
Prif Weithredwr / Chief Executive: **Alyson Thomas**
E-bost / E-mail: **enquiries@llaiscymru.org**
Ffôn / Tel: **02920 235558**

Llais is the operating name for the Citizen Voice Body for Health and Social Care, Wales.